CYNLLUN CYHOEDDI DEDDF RHYDDID GWYBODAETH C4

Dyddiad

Help a chyngor

Sylwadau

Cynnwys

1. **Cynllun Cyhoeddi Channel 4**

    1.1 Cyflwyniad i Channel 4
    1.2 Deddf Rhyddid Gwybodaeth
    1.3 Datganiad Polisi ar Ryddid Gwybodaeth
    1.4 Manylion am Gynllun Cyhoeddi Channel 4
    1.5 Cael gafael ar wybodaeth a restrir yn y cynllun
    1.6 Ffïoedd a godir am wybodaeth
    1.7 Hawlfraint
    1.8 Cael gafael ar wybodaeth nad yw yn y cynllun
    1.9 Y Ddeddf Diogelu Data
    1.10 Cyfrifoldebau am y Cynllun
    1.11 Y Comisiynydd Gwybodaeth
    1.12 Adborth ac ymholiadau
    1.13 **Cwynion**

2. **Dosbarthiadau o wybodaeth**
3. **Rhestr o Wybodaeth**

Adran 1: Cynllun Cyhoeddi Channel 4

Cyflwyniad i Gorfforaeth Deledu Channel 4.

Lansiwyd Channel 4 ar yr 2il Tachwedd 1982, gyda chyfrifoldebau cynhyrchu rhaglenni tra phenodol. O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae gan Channel 4 ddyletswydd i ddarparu rhaglenni arloesol o ansawdd uchel sy'n arbrofol, creadigol ac sy'n apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas amrywiol-ddiwylliannol. Mae Channel 4 wastad wedi cefnogi, ac fe fydd yn parhau i gefnogi'r sector annibynnol (comisiynir y rhan fwyaf o raglenni Channel 4 oddi wrth gwmnïau cynhyrchu annibynnol) ac mae ganddi ymrwymiad cryf i gynyrchiadau rhanbarthol, rhaglenni gwreiddiol a chynnyrch i ysgolion/addysgol.

Prif ffynhonnell ariannol Channel 4 yw ei gweithgarwch masnachol trwy werthu amser hysbysebion masnachol ar yr awyr.

Ail-fuddsodda Channel 4 ei helw yn ei rhaglenni ac er mwyn datblygu cynnwys a gwasanaethau newydd. Lansiwyd sianel Film Four ym mis Tachwedd 1998, a darlledodd sianel E4 ei rhaglenni cyntaf ym mis Ionawr 2001.
Tua diwedd 2000 sefydlwyd cangen gwasanaethau masnachol Channel 4 Television Corporation, 4 Ventures Cyfyngedig.

Darlledir Channel 4 ar hyn o bryd yn y DG ar wasanaethau analog a digidol.

Gweinyddir a rheolir y Gorfforaeth, ei pholisïau a'i swyddogaethau gan y Prif Weithredydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol eraill, sy'n atebol i'r Bwrdd, y mae eu mwyafrif yn anweithredol, a benodir gan Ofcom gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Cyflwyniad

Pasiwyd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) ar 30ain Tachwedd 2000 ac fe ddaeth ar waith yn llawn erbyn mis Ionawr 2005. Mae gan yr FOIA sawl swyddogaeth: rhodda hawl i weld a defnyddio pob math o wybodaeth gofnodedig a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus, rhestra wahanol eithriadau i'r hawl hwnnw a gesyd nifer o rwymedigaethau ar awdurdodau cyhoeddus.

Un o'r rhwymedigaethau a restrir gan yr FOIA yw fod rhaid i bob awdurdod cyhoeddus fabwysiadu a chadw Cynllun Cyhoeddi. Prif bwrpas y Cynllun Cyhoeddi yw rhoi i gyrff a sefydliadau y cyfle i gyhoeddi gwybodaeth yn fwy rhagweithiol ac i ddatblygu diwylliant o weithio'n fwy agored. Trwy ddarparu gwybodaeth trwy Gynllun Cyhoeddi mae llai o angen i unigolion wneud ceisiadau ysgrifenedig penodol.

Dylai'r Cynllun Cyhoeddi nodi:

(i) pa ddosbarthiadau o wybodaeth y mae Channel 4 yn eu cyhoeddi neu'n bwriadu eu cyhoeddi
(ii) ym mha fodd y bydd Channel 4 yn cyhoeddi'r wybodaeth; ac
(iii) a fydd Channel 4 yn codi tâl am yr wybodaeth ai peidio.

Bydd gan unigolion yr hawl cyffredinol hwn i gael a defnyddio gwybodaeth o fis Ionawr 2005.

Cwmpas yr FOIA yng nghyd-destun Channel 4 Television Corporation:

Rhestrir Channel 4 Television Corporation ("Channel 4") yn yr FOIA yn awdurdod cyhoeddus *'o ran gwybodaeth a gedwir at ddibenion ac eithrio rhai newyddiaduraeth, celfyddyd neu lenyddiaeth'.* Defnyddir yr un diffiniad penodol ar gyfer y darlledwyr eraill a ddaw o dan adain yr FOIA, sef y BBC ac S4C.

Mae dealltwriaeth sylfaenol o'r diffiniad hwn yn bwysig gan ei fod yn amlygu'r math o wybodaeth *a ddaw* o fewn cwmpas yr FOIA a'r wybodaeth honno *na ddaw.*

Yn fyr, ni ddaw gwybodaeth a gedwir gan Channel 4 at ddibenion *'newyddiaduraeth, celfyddyd neu lenyddiaeth'* o fewn cwmpas yr FOIA – nid yw'r FOIA felly'n berthnasol i wybodaeth neu ddeunydd a gedwir ar gyfer creu rhaglenni ar Channel 4 neu ddeunyddiau'n gysylltiedig â rhaglenni. Am y rheswm hwnnw, mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a gynhwysir yn ein Cynllun Cyhoeddi yn ymwneud â gweithgareddau rheolaeth a gwneud polisi Channel 4, yn hytrach nac â'i chynnyrch creadigol. Byddwn yn naturiol yn parhau i ddarparu ar ein gweleoedd gyfanswm enfawr o wybodaeth am ein rhaglenni ond ni chynhwysir yr wybodaeth hon yn ein Cynllun Cyhoeddi.

Eithriadau

Bwriad Channel 4 yw cadw at ysbryd yr FOIA ac i ddarparu gwybodaeth ble bynnag y mae modd gwneud hynny. Fodd bynnag, ni chynhwysir rhai mathau o wybodaeth yn ein Cynllun Cyhoeddi (ac ni fydd ychwaith ar gael trwy'r hawl cael a defnyddio cyffredinol) gan y bernir ei fod yn perthyn i un o'r eithriadau a nodir o dan amodau'r FOIA ac sy'n berthnasol i bob

awdurdod cyhoeddus. Pe bai'r Cynllun Cyhoeddi yn cynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai fel arfer yn eithriedig o dan yr hawl cael a defnyddio cyffredinol ym mis Ionawr 2005, nid oes unrhyw reidrwydd ar Channel 4 i gynhyrchu'r wybodaeth honno na gwybodaeth gysylltiol.

Datganiad Polisi ar Ryddid Gwybodaeth

Mae Channel 4 Television Corporation yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth yn agored yn unol â'r diffiniad o hynny yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Cydnabu Channel 4 felly ei dyletswydd i gynnal safonau uchel o ran cadw cofnodion sy'n cofnodi ei phrif weithgareddau. Fe fydd Channel 4 felly'n darparu gwybodaeth, a ddisgrifir yn y Cynllun Cyhoeddi, na fernir ei fod yn eithriedig ac y bernir ei fod o ddiddordeb cyhoeddus.

Manylion am Gynllun Cyhoeddi Channel 4

Mynna Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fod rhaid i'r Cynllun Cyhoeddi gynnwys y canlynol:

- pa ddosbarthiadau o wybodaeth a gyhoeddwn neu y bwriadwn eu cyhoeddi
- ym mha fodd y cyhoeddir, neu y bwriedir cyhoeddi, yr wybodaeth ymhob dosbarth; ac
- a yw'r deunydd, neu a fwriedir iddo fod, ar gael yn rhad ac am ddim neu a godir tâl amdano.

Cydymffurfia Cynllun Cyhoeddi Channel 4 â'r holl ofynion uchod. Penawdau bras yw'r dosbarthiadau, gydag enghreifftiau o fathau o wybodaeth y bwriada Channel 4 eu darparu. Ceir rhestr fanylach o fathau penodol o wybodaeth yn adran 3. Bydd yr wybodaeth mor gyfredol ag y bo modd a ble'n briodol cynhwysir rhai ôl-gopïau o wybodaeth.

Cael gafael ar wybodaeth a restrir yn y cynllun

Gellir gofyn am yr wybodaeth a gyhoeddir o dan y cynllun naill ai'n ysgrifenedig, trwy ebost gan ddefnyddio request form neu ble'n briodol gellir ei ddadlwytho o'r gwele ble y mae'r dogfennau ar gael yn electronaidd. Efallai y bydd gwybodaeth ychwanegol am Channel 4 nad yw'n gynwysedig yn y cynllun, yn enwedig felly os yw'n ymwneud â rhaglenni, ar gael trwy ein prif wele www.channel4.com

Gellir defnyddio'r cyfeiriad isod ar gyfer unrhyw geisiadau ysgrifenedig am unrhyw wybodaeth papur a restrir yn y cynllun:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth/The Corporation Secretary
C/o Freedom of Information team
Channel 4 Television Corporation
124 Horseferry Rd
Llundain
SW1P 2TX

Ffïoedd a godir am wybodaeth

Nid yw Channel 4 yn bwriadu codi tâl am wybodaeth, onibai fod y costau atgeisio ac ymchwil yn sylweddol. Os felly, ceidw Channel 4 yr hawl i godi tâl priodol ac i roi gwybod i'r ceisydd ymlaen llaw.

Hawlfraint

Darperir deunyddiau hawlfraint megis nwyddau a gynhyrchir gan a thrwy gydweithrediad â Channel 4 am brisiau adwerthu arferol ac maent ar gael trwy siop Channel 4. http://www.channel4.com/shop/ Cofiwch mai hawlfraint Channel 4 yw'r wybodaeth a restrir yn y cynllun onid yw'n dweud yn wahanol.

Cael gafael ar wybodaeth nad yw yn y cynllun

O fis Ionawr 2005 gellir gofyn am unrhyw wybodaeth a ddaw o fewn cwmpas y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, nad yw'n cael ei ystyried yn eithriedig ac nad yw wedi'i restru yn y cynllun trwy ebost neu'n ysgrifenedig gan roi eich enw, cyfeiriad a manylion yr wybodaeth yr hoffech ei dderbyn, at:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth/The Corporation Secretary
C/o Freedom of Information team
Channel 4 Television Corporation
124 Horseferry Rd
Llundain
SW1P 2TX

Y Ddeddf Diogelu Data

Daeth Deddf Diogelu Data 1998 ar waith ym mis Mawrth 2000. Rheoleiddia'r defnydd o wybodaeth am unigolion byw a rhodda rai hawliau i unigolion ynghylch data personol a gedwir amdanynt gan eraill (rheolwyr data). Mae gan unigolion yr hawl i weld gwybodaeth bersonol a gedwir amdanynt (cais am weld gwybodaeth), yn amodol ar eithriadau o dan y Ddeddf Diogelu Data. Dylid gwneud cais am weld gwybodaeth yn ysgrifenedig. Wedi derbyn yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdano, dylai rheolwyr data gydymffurfio â'r cais o fewn 40 niwrnod.

Mae Channel 4 yn parchu hawliau cyfreithiol unigolion. Os hoffech gael gwybodaeth am y defnydd a wneir o'ch data, cysylltwch â Rebecca Cheshire, Business Affairs Department, 124 Horseferry Road, SW1P 2TX neu ebostiwch privacy@channel4.co.uk

Cyfrifoldebau am y Cynllun Cyhoeddi

Ysgrifennydd y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am y Cynllun Cyhoeddi.

Y tîm Archifau FM sy'n gyfrifol am weinyddu a chynnal y cynllun.

Yr Adran Ryngweithiol sy'n gyfrifol am weinyddu a rhedeg y gwele.

Y Comisiynydd Gwybodaeth

Gofala'r Comisiynydd Gwybodaeth fod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Ddeddf ac mae'n gyfrifol am reoleiddiad cyffredinol yr awdurdodau cyhoeddus hynny y mae ganddynt ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Y Comisiynydd Gwybodaeth/The Information Commissioner
Wycliffe House
Walter Lane
Wilmslow

Swydd Caer/Cheshire
K9 5AF

Adborth ac ymholiadau

Os oes gennych unrhyw sylwadau am y cynllun cysylltwch â:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth/The Corporation Secretary
C/o Freedom of Information team
Channel 4 Television Corporation
124 Horseferry Rd
Llundain
SW1P 2TX

Cwynion

Os ydych yn anhapus â'r cymorth a gawsoch gan Channel 4 i gael gafael ar yr wybodaeth a restrir yn y Cynllun Cyhoeddi cysylltwch â:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth/The Corporation Secretary
C/o Freedom of Information team
Channel 4 Television Corporation
124 Horseferry Rd
Llundain
SW1P 2TX

Os ydych yn dal yn anfodlon â chanlyniadau eich ymholiad gallwch gysylltu â:

Y Comisiynydd Gwybodaeth/The Information Commissioner
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Caer/Cheshire
SK9 5AF

Adran 2: Dosbarthiadau o wybodaeth

Dosbarth 1	**Ein Trefniadaeth**
Disgrifiad	Gwybodaeth sy'n cynnig disgrifiad byr o'n hanes, ein trefniadaeth ranbarthol a gorolwg o rolau a chyfrifoldebau yn y Sianel. Ceir manylion cynnwys y dosbarth hwn yn y rhestr o wybodaeth amgaeëdig.
Fformat	Y We ac ar bapur
Tâl	Dim
Nodiadau	

Dosbarth 2	**Ymrwymiad Cyhoeddus Channel 4**
Disgrifiad	Gwybodaeth yn manylu ar faes llafur y Sianel o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, cydymffurfiaeth a safonau technegol a fynnir gan Ofcom a gwasanaeth a dyletswyddau Channel 4.
Fformat	Y We ac ar Bapur
Tâl	Dim
Nodiadau	

Dosbarth 3	**Corfforaethol a Busnes**
Disgrifiad	Gwybodaeth ddethol am redeg Channel 4.
Fformat	Y We ac ar Bapur
Tâl	Dim
Nodiadau	

Dosbarth 4	**Datganiadau i'r Wasg ac Areithiau Dethol**
Disgrifiad	Deunyddiau cyhoeddusrwydd dethol gan gynnwys rhai areithiau o'r flwyddyn gyfredol.
Fformat	Y We ac ar Bapur
Tâl	Dim
Nodiadau	

Dosbarth 5	**Gweithio yn Channel 4**
Disgrifiad	Gwybodaeth ddethol am bolisïau mewnol, gweithdrefnau, rhanbarthol, amrywiaeth a ricriwtio.
Fformat	Y We ac ar Bapur
Tâl	Dim
Nodiadau	Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Channel4.com

Dosbarth 6	**Trosiant Ariannol a Refeniw**
Disgrifiad	Gwybodaeth ddethol am ariannu Channel 4 a'i gweithgareddau masnachol gan gynnwys ei Hadroddiadau Blynyddol a'i Datganiadau Ariannol.
Fformat	Y We ac ar Bapur
Tâl	
Nodiadau	

Dosbarth 7	**Y Gymuned a'r Amgylchedd**
Disgrifiad	Gwybodaeth ddethol am bolisi Channel 4 tuag at faterion cymunedol ac amgylcheddol.
Fformat	Y We ac ar Bapur
Tâl	Dim
Nodiadau	
Dosbarth 8	**Cael Gafael ar Wybodaeth / Cysylltu â Channel 4**
Disgrifiad	Gwybodaeth am ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gyfer cydymffurfio â'n hymrwymiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998, a pholisi Channel 4 ynghylch deunyddiau o werth archifol. Ceir manylion cynnwys y dosbarth hwn yn y rhestr o wybodaeth amgaeëdig. Mae cyhoeddiadau Channel 4 i'w gweld yn Channel 4 Shop. Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy'r Press Office a Viewer Enquiries
Fformat	Papur, y we ac electronaidd
Tâl	Efallai y codir taliadau am brynu rhai deunyddiau hawlfraint
Nodiadau	

Adran 3: Rhestr o wybodaeth – gan gynnwys cysylltiadau â dogfennau neu gwybodaeth ar y We.

Dosbarth 1: Ein Trefniadaeth				
Gwybodaeth	**Lleoliad**	**Fformat**	**Cost**	**Nodiadau**
Dogfen rolau a swyddogaethau adrannol	Gwele	Arlein	Dim	
Dogfen crynodeb o hanes	Gwele	Arlein	Dim	

Dosbarth 2: Ymrwymiad Cyhoeddus Channel 4				
Gwybodaeth	**Lleoliad**	**Fformat**	**Cost**	**Nodiadau**
Maes llafur	Materion Busnes a Chyllid Rhaglenni	Arlein	Dim	
Trwydded Channel 4	Materion Busnes a Chyllid Rhaglenni	Arlein	Dim	

Dosbarth 3: Corfforaethol a Busnes				
Gwybodaeth	**Lleoliad**	**Fformat**	**Cost**	**Nodiadau**
Côd Ymarfer ar gyfer Comisiynu Rhaglenni oddi wrth Gynhyrchwyr Annibynnol	Materion Busnes a Chyllid Rhaglenni	Arlein	Dim	
Areithiau'r Prif Weithredydd yn y flwyddyn gyfredol	Corfforaethol	Copi papur	Dim	
Detholiad o Areithiau Corfforaethol	Corfforaethol	Copi papur	Dim	Bwriadu ei Gyhoeddi
Areithiau'r flwyddyn gyfredol – Cyfarwyddydd Teledu	Rheolaeth Comisiynu	Copi papur	Dim	
Datganiad o Addewidion ar gyfer y flwyddyn i ddod	Rheolaeth Comisiynu	Copi papur	Dim	
Adolygiad o'r Datganiad o Addewidion	Rheolaeth Comisiynu	Copi papur	Dim	
Cyflwyniadau ar gyfer Sesiynau Cefndir/Dyddiau Agored/Digwyddiadau Eraill	Rheolaeth Comisiynu	Copi papur	Dim	
Hysbysiadau Diogelu Data ar gyfer y Gorfforaeth a 4Ventures ac is-gwmnïau	Materion Busnes a Chyllid Rhaglenni	Copi papur	Dim	

Dosbarth 4: Datganiadau i'r Wasg ac Areithiau Dethol				
Gwybodaeth	**Lleoliad**	**Fformat**	**Cost**	**Nodiadau**
Datganiadau i'r wasg ar gyfer y flwyddyn gyfredol	Y Wasg a Chyhoeddusrwydd	Copi papur	Dim	
Detholiad o areithiau ar gyfer y flwyddyn gyfredol	Y Wasg a Chyhoeddusrwydd	Copi papur	Dim	

Dosbarth 5: Gweithio yn Channel 4				
Gwybodaeth	**Lleoliad**	**Fformat**	**Cost**	**Nodiadau**
Cyfnodau Absenoldeb a Thâl Mabwysiadol	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Polisi Disgyblu	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Canllawiau Gweithio'n Hyblyg ar gyfer Gweithwyr	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Polisi Cwynion	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Cyfnod Mamolaeth – Cwestiynau Cyffredin	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Cyfnod & Thâl Mamolaeth	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Cyfnod Absenoldeb Magu Plant	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Cyfnod Absenoldeb i Dadau	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Polisi Ricriwtio	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Polisi Ysmygu	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Polisi Profiad Gwaith	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Hysbysebion Swyddi Allanol	Adnoddau Dynol	Arlein	Dim	
Cofnodion Proses Gyflwyno	Adnoddau Dynol	Copi papur	Dim	
Datganiad Polisi Iechyd & Diogelwch	Rheoli Cyfleusterau	Copi papur	Dim	
Dogfen Iechyd a Diogelwch 124	Cyfleusterau 124	Copi papur	Dim	
Gweithdrefnau Cymorth Cyntaf	Rheoli Cyfleusterau	Copi papur	Dim	
Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Cyfnodau Cyflwyno/Gwaith Papur	Rheoli Cyfleusterau	Copi papur	Dim	
Polisi Ceir	Rheoli Cyfleusterau	Copi papur	Dim	
Polisi a Gweithdrefnau Teithio	Rheoli Cyfleusterau	Copi papur	Dim	
Polisi a Llawlyfr Rheolaeth Archifau a Chofnodion	Rheoli Cyfleusterau	Copi papur	Dim	Bwriadu ei Gyhoeddi

Dosbarth 6: Trosiant Ariannol a Refeniw				
Gwybodaeth	**Lleoliad**	**Fformat**	**Cost**	**Nodiadau**
Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol	Cyllid	Arlein	Dim	
Dogfen Hyfforddiant	Gwerthiannau Asiantaeth	Copi papur	Dim	
Ffeithlen Gwybodaeth am Werthiannau	Gwerthiannau Asiantaeth	Copi papur	Dim	
Dyddiadau Cau ar gyfer Llogiadau Ymlaen Llaw	Gwerthiannau Asiantaeth	Copi papur	Dim	
Adroddiadau dethol e.e. cynulleidfaoedd cyfartalog, darperir i aelodau'r cyhoedd os y gofynnir amdanynt	Marchnata ac Ymchwil Masnachol	Copi papur	Dim	
Disgrifiadau o Gynlluniau Nawdd Llwyddiannus	Nawdd	Copi papur	Dim	
Rhestr o Noddwyr cyfredol ar Channel 4	Nawdd	Copi papur	Dim	

Dosbarth 7: Y Gymuned a'r Amgylchedd				
Gwybodaeth	**Lleoliad**	**Fformat**	**Cost**	**Nodiadau**
Datganiad Polisi Amgylcheddol	Rheoli Cyfleusterau	Arlein	Dim	Bwriadu ei Gyhoeddi
Taflenni Art 4	art@4channel4.co.uk	Arlein		

Dosbarth 8: Cael Gafael ar Wybodaeth / Cysylltu â Channel 4				
Gwybodaeth	**Lleoliad**	**Fformat**	**Cost**	**Nodiadau**
Datganiad Polisi ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth	Rheoli Cyfleusterau	Arlein	Dim	